



Partneriaeth Banc Cydwethredol GIG Cymru: Cysylltu gweithwyr â sifftiau gwag â thâl wythnosol ledled Cymru

Oherwydd Covid-19 gallwn gynnig tâl wythnosol ond ni allwn hwyluso gweithio trawsffiniol ar hyn o bryd.

Gall y Partneriaeth Banc Cydwethredol gadarnhau y bydd yr holl 'sifftiau cwmwl' a gwblheir erbyn dydd Sadwrn yn cael eu talu y dydd Gwener canlynol.

Mae'r Partneriaeth Banc Cydwethredol yn drefniant rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru lle mae Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) yn cynnal Banc Staff i ddarparu staff nyrsio mewn ymateb i brinder staff dros dro neu yn y tymor byr.

Yn ogystal â gwella gofal cleifion, bydd y trefniant arfaethedig yn dod â buddion ychwanegol i staff y banc nyrsio, gan gynnwys archebu sifftiau yn electronig a bydd yn darparu tâl wythnosol.

Mae'r model yn esblygu o'r Swyddfa Banc 'leol' yn recriwtio gweithwyr a bydd yn hwyluso rhannu gweithwyr banc ledled GIG Cymru a bydd PCGC yn lletya'r staff ac yn delio â'u cyflogaeth ar draws GIG Cymru.

Mae PCGC yn galluogi taliadau wythnosol i weithwyr y Banc Cydwethredol a bydd yn defnyddio technoleg yn y cwmwl ac ap ffôn clyfar i gysylltu gweithwyr â sifftiau gwag ar restrau ledled Cymru.

Mae sifftiau Banc Cydwethredol neu 'sifftiau cwmwl' yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd lle mae'r sifft yn digwydd.

Y manteision i'r gweithwyr

- Tâl wythnosol ar gyfer sifftiau ar draws sawl sefydliad trwy un slip cyflog
- Y gallu i weld ac archebu sifftiau mewn sawl Bwrdd Iechyd trwy ap ffôn clyfar
- Gwyliau Blynyddol â Thâl am bob sifft a weithiwyd
- Hysbysiad o sifftiau ymlaen llaw drwy ffôn symudol
- Mynediad i ap Cynllun Pensiwn y GIG
- Gweithio hyblyg i weddu i'ch ffordd o fyw mewn sawl Bwrdd Iechyd

Y buddion i GIG Cymru

- Diogelwch cleifion: mynediad at weithlu dros dro GIG profiadol, wedi'i hyfforddi'n llawn a'i fetio yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.
- Pasbort Gwiriadau Cyn Cyflogaeth (PEC) effeithiol ar gyfer gweithwyr sydd am weithio sifftiau mewn gwahanol fyrddau iechyd.
- Ariannol: dull sy'n canolbwyntio ar gynyddu defnydd o fanc y GIG, gan leihau'r defnydd o asiantaethau a gwariant cyfradd premiwm ar yr un pryd.
- Effeithlonrwydd gweinyddol: cyfradd llenwi uwch trwy archebu gweithwyr banc yn well, lleihau nifer yr anfonebau gan asiantaethau ac integreiddio prosesau banc a thechnoleg bresennol.



Sut i ymuno â'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol

1. Sicrhewch eich bod wedi ymrestru (gydag aseiniad gweithredol) gyda'r banc yng Nghwm Taf Morgannwg neu Fae Abertawe.
2. Gofynnwch i'ch Swyddfa Banc leol eich cofrestru ar y Bartneriaeth Banc Cydweithredol a derbyn 'nodyn croeso' a thaflen wybodaeth.
3. Ar ôl 10 diwrnod byddwch chi'n derbyn; cadarnhad o'ch cofrestriad, cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho Me-App (i weld ac archebu sifftiau) a'ch Manylion Mewngofnodi ESR.

Pa mor hir mae'n ei gymryd i ddechrau?

Gall gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith ar ôl i'ch Swyddfa Banc leol gyflwyno'ch cais i ymuno â'r Banc Cydweithredol i chi dderbyn cadarnhad eich bod wedi ymrestru. Byddwch yn cael cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho Me-app ac archebu'ch sifft gyntaf drwy'r Banc Cydweithredol.

Cael eich talu

- Mae'r Bartneriaeth Banc Cydweithredol yn falch o gadarnhau y bydd yr holl 'sifftiau cwmwl' a gwblheir erbyn dydd Sadwrn yn cael eu talu y dydd Gwener canlynol.
- Fe'ch telir yn yr un cyfrif banc ag y byddwch yn derbyn eich cyflog parhaol/banc lleol presennol. Gallwch newid manylion eich cyfrif banc trwy Hunanwasanaeth ESR.
- Fe'ch telir yn wythnosol trwy slip cyflog electronig gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Sut mae archebu sifftiau?

Tua 10 diwrnod ar ôl i chi ofyn i gofrestru, byddwch yn derbyn e-bost yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho 'Me-app' ar eich ffôn clyfar. Bydd yr ap hwn yn caniatáu ichi weld ac archebu sifftiau rheolaidd a 'sifftiau cwmwl'.

Cofiwch mai dim ond y 'sifftiau cwmwl' sy'n cynnig tâl wythnosol. Gellir adnabod 'sifftiau cwmwl' gan y logo cwmwl llwyd bach



Beth am staff asiantaeth?

Anogir staff Asiantaeth i ymuno â'r Banc Cydweithredol. Bydd gan weithwyr Banc Cydweithredol fynediad ffafriol i weld ac archebu sifftiau ond ni allant weithio sifftiau trwy Asiantaeth mewn Byrddau Iechyd sy'n rhan o'r Bartneriaeth Gydweithredol.

Telerau Cyflogaeth

Mae Telerau Cyflogaeth y Bartneriaeth Banc Cydweithredol yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl wrth weithio sifft trwy'r Banc Cydweithredol. Bydd angen i chi lofnodi, dyddio a dychwelyd y ddogfen hon at Collab.Bank@wales.nhs.uk

Rhagor o wybodaeth

Cwm Taf Morgannwg

CTT_staffbank@wales.nhs.uk
01685 726900

Bae Abertawe

ABM.NurseBank@wales.nhs.uk
01639 684401

NWSSP

Collab.Bank@wales.nhs.uk

pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/datrysiadau-gweithlu-digidol/partneriaeth-banc-cydweithredol-gig-cymru/